Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## B's Aesthetics, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**Dyddiad yr arolygiad:** 24 Mawrth 2026

**Dyddiad cyhoeddi:** 24 Mehefin 2026

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein **gwefan** neu drwy gysylltu â ni:


**Yn ysgrifenedig:**

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Neu:**

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


**ISBN Digidol 978-1-83745-670-3**

**© Hawlfraint y Goron 2026**



# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

## Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

## Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

**Rydym yn:**

**Annibynnol** – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

**Gwrthrychol** – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

**Pendant** – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

**Cynhwysol** – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

**Cymesur** – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

## Ein Blaenoriaethau

**Rhoi Pobl yn Gyntaf** – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

**Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd** – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

**Buddsoddi yn Ein Pobl** – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

**Cymryd Camau sydd o Bwys** – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 9

   Ansawdd Profiad y Claf .......... 9

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 12

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 15

4. Y camau nesaf .......... 16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 17

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 19

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 20

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o B’s Aesthetics ar 24 Mawrth 2026.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Yn anffodus, ni chawsom unrhyw holiaduron.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y cleifion yn cael lefel dda o ofal yn B’s Aesthetics. Roedd trefniadau cadarn ar waith i gefnogi preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn. Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel cleifion. Roedd y systemau a oedd ar waith i gofnodi ac ymateb i adborth gan gleifion yn foddhaol ac roedd y trefniadau ar gyfer cynllunio gofal yn cael eu rheoli'n dda yn y lleoliad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cwblhau hanes iechyd a hanes meddygol manwl cyn cael triniaeth, a oedd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru cyn pob apwyntiad dilynol. Roedd cofnodion yn cael eu cwblhau, eu llofnodi, eu dyddio a'u cynnal yn electronig mewn modd priodol, gyda llwybr archwilio clir, gan gynnwys cofnod o gydsyniad.
- Roedd preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu parchu'n gyson. Roedd ymgyngoriadau'n cael eu cynnal ar sail un i un, roedd triniaethau'n cael eu cynnal mewn ystafelloedd trin addas, ac roedd mesurau ar waith i atal sgyrsiau rhag cael eu clywed gan eraill.
- Gwelsom fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus, gan gynnwys trafodaethau wyneb yn wyneb am y risgiau, y manteision a'r canlyniadau disgwyliedig. Roedd y staff yn gofyn am gydsyniad cyn y driniaeth gychwynnol ac yn ei ailgadarnhau ym mhob apwyntiad dilynol.
- Roedd gwybodaeth glir a hygyrch ar gael i gleifion drwy wefan y clinig, taflenni, a thrafodaethau ar lafar. Roedd modd rhannu gwybodaeth yn electronig hefyd cyn apwyntiadau ac roedd yn cael ei hatgyfnerthu yn ystod ymgyngoriadau.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i reoli'r risg o niwed i'r cleifion a darparu gofal mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Roedd y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn cael eu rheoli'n briodol ac roedd cydymffurfiaeth y clinig â'r gofynion rheoliadol yn addas.

Roedd gan y lleoliad gydberthynas waith dda â'i Gynghorydd Diogelu rhag Laserau, a oedd o fudd i gleifion a'r staff.  Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu trin a'u cwblhau'n gywir, a'u storio mewn system cofnodion electronig ddiogel. Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf wyneb yn wyneb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da, gyda'r ystafelloedd trin wedi'u gosod yn briodol i ddarparu gofal yn ddiogel
- Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau, ac roedd arferion glanhau ar waith ac yn cael eu dilyn
- Roedd cofnodion y cleifion yn fanwl, wedi'u storio'n ddiogel, ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, megis cydsyniad, hanes meddygol a manylion triniaethau. Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth glir am driniaethau hefyd.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd y trefniadau diogelwch tân yn anghyflawn - nid oedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu o fewn yr amserlen ofynnol, ac nid oedd arwyddion ar gyfer yr allanfa dân yn yr ystafelloedd trin. Nodwyd y materion hyn ac ymdriniwyd â nhw yn ystod yr arolygiad
- Nid oedd protocol meddygol cyfredol wedi'i lofnodi ar gyfer y laser ar gael ar adeg yr arolygiad, ond cafodd ei ddarparu i AGIC yn ddiweddarach.
- Nid oedd y Rheolwr Cofrestredig na'r gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf wyneb yn wyneb ar adeg yr arolygiad, ond roedd yr hyfforddiant wedi'i drefnu a'i gadarnhau.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y trefniadau arwain a rheoli a oedd ar waith yn foddhaol. Roedd polisïau clir a chynhwysfawr ar waith i roi arweiniad i'r staff, gan gynnwys polisi cwynion a pholisi hyfforddiant. Gwelwyd bod y prosesau ar gyfer sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus yn briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y Rheolwr Cofrestredig yn hyderus yn ei rôl ac roedd ganddo gyfrifoldeb clir am staffio, cwynion a phrosesau rheoli o ddydd i ddydd
- Roedd y staff a oedd yn defnyddio'r cyfarpar laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth gofynnol ac wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r peiriannau'n ddiogel.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Nid oedd gwiriadau DBS y Rheolwr Cofrestredig na’r gweithredwr yn gyfredol ar adeg yr arolygiad, ond cymerwyd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Cyn yr arolygiad, cafodd cleifion eu gwahodd i roi adborth naill ai ar-lein neu drwy holiadur papur; ond, ni dderbyniwyd unrhyw holiaduron wedi'u cwblhau. Yn ystod yr arolygiad, eglurodd y Rheolwr Cofrestredig fod y clinig yn mynd ati i annog cleifion i roi adborth drwy anfon negeseuon e-bost atynt yn dilyn triniaeth, darparu ffurflenni adborth i'w cwblhau, a chasglu adborth llafar. Caiff yr holl adborth a dderbynnir ei adolygu a, lle bo angen, caiff arferion eu newid. Caiff unrhyw newidiadau a wneir mewn ymateb i adborth eu rhannu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y clinig.

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod cleifion yn rhoi hanes iechyd a hanes meddygol manwl cyn cael eu triniaeth gychwynnol, ac eto cyn cael unrhyw driniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau bod y staff yn llofnodi ac yn dyddio cofnodion.

Gwnaethom edrych ar gofnodion 5 claf drwy'r system cofnodion electronig. Roedd hyn yn darparu llwybr archwilio i ddangos bod y gweithredwr wedi cwblhau'r cofnod gyda'r claf a'i fod wedi cydsynio i'r driniaeth.

### Urddas a pharch

Gwnaethom gadarnhau bod yr ardal ymgynghori yn cael ei defnyddio ar gyfer un claf yn unig ar y tro a bod triniaethau bob amser yn cael eu cynnal yn yr ystafell drin briodol. Nid oedd modd cloi drysau'r ddwy ystafell drin er mwyn cynnal preifatrwydd; fodd bynnag, roedd arwyddion wedi'u harddangos y tu allan i'r ystafelloedd i nodi pan oeddent yn cael eu defnyddio. Nodwyd gennym nad oedd modd i sgyrsiau gael eu clywed gan eraill.

Cadarnhaodd y gweithredwr y gallai'r cleifion newid, pe bai angen, yn yr ystafell drin, ac y byddai'n gadael yr ystafell er mwyn rhoi preifatrwydd a chynnal urddas y claf.

Gwnaethom gadarnhau bod polisi hebryngwyr ar waith ond roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn dewis mynychu ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, darperir cyfarpar amddiffyn y llygaid priodol os bydd hebryngwr yn bresennol.

### Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Gwelsom fod cleifion yn cael digon o wybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb lle y byddai'r gweithredwr yn trafod risgiau, manteision a chanlyniadau disgwyliedig y driniaeth arfaethedig.

Roedd Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion y clinig ar gael i'r cleifion eu gweld yn ardal aros y clinig.

Roedd y ddogfennaeth gydsynio o safon dda. Gwnaethom gadarnhau bod cydsyniad yn cael ei gadarnhau cyn y driniaeth gychwynnol ac ym mhob apwyntiad dilynol.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael ar wefan y clinig, ar ffurf taflenni a thrwy drafodaeth ar lafar i helpu'r cleifion i ddeall eu hopsiynau triniaeth.

Gellir rhannu gwybodaeth yn electronig cyn yr apwyntiad, a dywedodd y Rheolwr Cofrestredig wrthym y caiff hyn ei ail-bwysleisio yn ystod yr ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Gwelsom dystiolaeth wedi'i dogfennu o hyn yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt.

Cawsom wybod nad oedd unrhyw siaradwyr Cymraeg yn y clinig;  fodd bynnag, roedd gwasanaeth Language Line ar gael pe bai'r cleifion yn dymuno cael gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu ieithoedd eraill.

Roedd rhestr gynhwysfawr o brisiau triniaethau ar gael ar wefan y clinig ac ar ffurf taflen, a oedd ar gael yn ardal aros y clinig.

Gwnaethom edrych ar y broses gwyno, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, gan gynnwys â phwy y dylid cysylltu, amserlenni priodol ar gyfer ymateb a manylion cyswllt AGIC.

## Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth bod trafodaethau am driniaethau wedi cael eu cynnal mewn modd amserol cyn y driniaeth a bod yr holl risgiau a manteision wedi cael eu hesbonio a'u dogfennu. Roedd ymatebion y cleifion wedi cael eu dogfennu hefyd.

Gwelsom fod cofrestr triniaethau ysgrifenedig ar gael ar gyfer yr uned laser a oedd yn cynnwys manylion y claf, yr ymateb i'r prawf croen, paramedrau'r driniaeth, y dyddiad a'r math o driniaeth, manylion y gweithredwr ac ymateb y claf i'r driniaeth.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd gan y clinig bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith, i ddangos ei ymrwymiad i sicrhau mynediad teg i bob unigolyn at wasanaethau a bod pob unigolyn yn cael ei drin yn gyfartal.  Roedd pob aelod o staff y clinig wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd gan y clinig system sefydledig ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion fel rhan o'i brosesau monitro ansawdd. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gyhoeddi ar wefan y clinig, sy'n dangos tryloywder a bod y gwasanaeth yn ystyried ac yn gweithredu ar adborth er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys:

- Y cyfryngau cymdeithasol
- Opsiynau adborth dienw.

Roedd yr amrywiaeth hon o ddulliau yn sicrhau bod y cleifion yn gallu rhannu eu barn mewn ffordd a oedd yn addas iddynt, gan helpu i ddatblygu'r gwasanaeth yn barhaus.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

### Yr Amgylchedd

Roedd yr amgylchedd yn lân, mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar priodol i helpu i ddarparu'r triniaethau y mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i'w darparu yn ddiogel.

Roedd y clinig wedi'i gwblhau i safon dda ac roedd yn ymddangos yn lân ac yn drefnus, heb unrhyw beryglon amlwg.

Roedd yr ystafelloedd trin yn cynnwys digon o gyfarpar, yn addas at y diben ac yn cael eu cynnal a'u cadw er mwyn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn cael ei weithredu'n ddiogel ac yn unol â chanllawiau perthnasol.

Roedd profion offer cludadwy (PAT) wedi'u cynnal ar bob darn o gyfarpar trydanol i safon ofynnol.

Nodwyd gennym fod rhai trefniadau diogelwch tân ar waith. Gwelsom fod y diffoddwyr tân wedi'u gosod ar y wal yn gywir ac wedi'u nodi'n glir, ond nid oeddent wedi cael eu gwasanaethu'n briodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad ac anfonodd y lleoliad gadarnhad i AGIC o'r gwaith gwasanaethu. **Ymdriniwyd â'r mater hwn ar unwaith yn ystod yr arolygiad a chyfeirir ato yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.**

Roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir yn y clinig ac roedd arwyddion priodol i'w gweld; fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwyddion wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd trin. Gwnaethom gadarnhau bod y systemau canfod tân yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

**Dylai'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau bod arwyddion ar gyfer allanfeydd tân yn cael eu harddangos ym mhob ystafell drin**

Roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn glir. Roedd asesiad risg tân ar waith a disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut yr ymdrinnir â'r camau a gaiff eu nodi a sut y cânt eu cofnodi. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Roedd y cynnwys yn gyflawn ac yn gyfredol.

Cawsom wybod bod disgwyl i'r Rheolwr Cofrestredig a'r gweithredwr gwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf wyneb yn wyneb y mis canlynol, a gwelodd AGIC gadarnhad o hyn. Roedd y gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant e-ddysgu ar adfywio.

**Dylai'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf**

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol yn amlwg ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith, a rheolwr y clinig oedd yr arweinydd. Gwelsom fod y staff yn dilyn amserlenni glanhau a bod cyfarpar diogelu personol a hylif diheintio dwylo priodol ar gael yn hwylus.

Disgrifiodd y staff y trefniadau glanhau, a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau hyd at y lefel ofynnol. Roedd y mesurau hyn yn cyfrannu at amgylchedd clinigol diogel.

## Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Gwelsom nad oedd y clinig yn darparu triniaeth i unigolion o dan 18 oed yn unol â gofynion ei gofrestriad. Roedd polisi a chanllawiau clir ar waith yn y clinig ar gyfer oedolion a oedd am gael triniaeth.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion hyd at y lefel ofynnol.

## Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd un uned laser yn y clinig, a oedd mewn cyflwr da, yn lân yr olwg ac yn cydymffurfio â'r cofrestriad ag AGIC.

Roedd arwyddion priodol ar ddrysau'r ystafelloedd trin i rybuddio pobl bod unedau laser yn cael eu defnyddio. Roedd gan yr uned laser system mynediad â chod. Gwelsom fod yr uned laser wedi cael ei gwasanaethu bob blwyddyn a bod gwiriadau mewnol yn cael eu cynnal.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau sy'n meddu ar y cymwysterau addas. Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld â'r safle yn ystod y misoedd diwethaf, ac roedd adroddiad priodol ar yr ymweliad ar gael. Roedd rheolau lleol a phrotocolau trin priodol ar waith. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, ni welsom gopi cyfredol o'r protocol meddygol wedi'i lofnodi a'i awdurdodi ar gyfer yr uned laser. Anfonwyd hwn i AGIC yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw gan roi sicrwydd bod ymarferydd meddygol wedi llofnodi'r protocol meddygol ar gyfer yr uned laser. **Ymdriniwyd â'r mater hwn ar unwaith yn ystod yr arolygiad a chyfeirir ato yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.**

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr, ac roedd yn cydymffurfio â'r rheolau lleol a disgrifiodd y Rheolwr Cofrestredig wiriadau rheolaidd i sicrhau bod y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio ac wedi'i ddihalogi.

### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd yn y clinig er mwyn llywio gwelliant parhaus. Dywedwyd wrthym hefyd fod y clinig yn ysgrifennu erthygl 'dywedoch chi, gwnaethom ni' sydd ar gael ar ei wefan.

### Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion ar ffurf electronig, yn cael eu cadw i safon dda ac yn cynnwys manylion clinigol priodol.

Roedd yr holl wybodaeth am driniaethau ar gael ar y wefan ac yn cael ei thrafod yn ystod yr ymgynghoriad.

### Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel ar y system electronig.

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf a gwelsom drefniadau cadw cofnodion da, a bod gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei chofnodi. Roedd hyn yn cynnwys manylion adnabod y claf, hanes meddygol, cydsyniad, ffurflenni ymgynghori a hanes triniaethau.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith yn y lleoliad hwn yn addas. Rheolwr cofrestredig y clinig oedd y pwynt cyswllt ar gyfer pob mater yn ymwneud â staffio, a gwelsom ei fod yn hyderus yn ei rôl. Gwelsom dystiolaeth bod pob un o ddefnyddwyr awdurdodedig y peiriannau laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ac wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser.

Gwelsom fod tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn y clinig; fodd bynnag, nid oedd y fersiwn Saesneg i'w gweld ar adeg yr arolygiad. Cymerodd y lleoliad gamau i fynd i'r afael â hyn, a chafodd y fersiwn Saesneg o'r dystysgrif ei rhoi ar y wal yn ystod yr arolygiad.

## Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Y Rheolwr Cofrestredig oedd yn gyfrifol am oruchwylio cwynion gan gleifion. Roedd y weithdrefn gwyno a welsom yn briodol, yn gyfredol ac yn cyfeirio at AGIC fel ffordd o uwchgyfeirio pryderon. Roedd cofnod cwynion ar gael i ni ei weld yn ystod yr arolygiad, a rhoddodd y broses gwyno a oedd ar waith sicrwydd i ni. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gwynion yn cael eu trafod ac y byddai unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu cofnodi.

## Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Yn anffodus, nid oedd pob gwiriad sylfaenol wedi cael ei gynnal i lefel foddhaol. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y Rheolwr Cofrestredig a'r gweithredwr wedi darfod; fodd bynnag, cafodd ceisiadau eu cyflwyno ar ddiwrnod yr arolygiad, a darparwyd tystiolaeth i AGIC wedi hynny. **Ymdriniwyd â'r mater hwn ar unwaith yn ystod yr arolygiad a chyfeirir ato yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.**

Gwelsom gontractau, cofnodion sefydlu a chofnodion hyfforddi ac roeddent o safon foddhaol.

## Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom edrych ar gofnodion staff y Rheolwr Cofrestredig a'r gweithredwr a gwelsom eu bod yn cynnwys cofnod o hyfforddiant cyfredol a oedd yn berthnasol i'w rolau, heblaw am hyfforddiant Cymorth Cyntaf, y tynnwyd sylw ato eisoes yn yr adroddiad hwn.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Gwelsom fod y diffoddwyr tân wedi'u gosod ar y wal yn gywir ac wedi'u nodi'n glir, ond nid oeddent wedi cael eu gwasanaethu'n briodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.** | Gallai hyn arwain at niwed i unigolion pe bai argyfwng | Trafodwyd y mater â'r Rheolwr Cofrestredig | Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad ac anfonwyd cadarnhad i AGIC o'r dyddiad y byddent yn cael eu gwasanaethu. |
| Yn ystod yr arolygiad, ni welsom gopi cyfredol o'r protocol meddygol wedi'i lofnodi a'i awdurdodi ar gyfer yr uned laser. Anfonwyd hwn i AGIC yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw gan roi sicrwydd bod ymarferydd meddygol wedi llofnodi'r protocol meddygol ar gyfer yr uned laser. | Gallai hyn arwain at niwed i unigolion pe bai argyfwng | Trafodwyd y mater â'r Rheolwr Cofrestredig | Ymdriniwyd â'r mater hwn ar unwaith yn ystod yr arolygiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y Rheolwr Cofrestredig a'r gweithredwr wedi darfod | | Trafodwyd y mater â'r Rheolwr Cofrestredig | Ymdriniwyd â'r mater hwn ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Cafodd ceisiadau DBS eu cyflwyno ar ddiwrnod yr arolygiad, a darparwyd tystiolaeth i AGIC wedi hynny. |

# **Atodiad B** – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** **B's Aesthetics**

**Dyddiad yr arolygiad:** **24 Mawrth 2026**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio | | | | |
| **Canfyddiadau:** | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Swydd:** **Dyddiad:**

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: B’s Aesthetics

## Dyddiad yr arolygiad: 24 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir yn y clinig ac roedd arwyddion priodol i'w gweld; fodd bynnag, ni welsom arwyddion ar gyfer allanfeydd tân wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd trin. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y systemau canfod tân yn cael eu gwirio'n rheolaidd. | **Dylai'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau bod arwyddion ar gyfer allanfeydd tân yn cael eu harddangos ym mhob ystafell drin** | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru)<br><br>Rheoliad 4(b) | Cafodd arwyddion ar gyfer allanfeydd tân eu prynu a'u gosod uwchben y drysau yn y ddwy ystafell drin | Rebecca Rogers | Ar unwaith |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | Cawsom wybod bod disgwyl i'r Rheolwr Cofrestredig a'r gweithredwr gwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf wyneb yn wyneb y mis canlynol, a gwelodd AGIC gadarnhad o hyn. | **Dylai'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf** | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru)<br><br>Rheoliad 26 (4)(c) | Cwblhawyd yr hyfforddiant ar 30 Ebrill. Rwyf wedi anfon y tystysgrifau i AGIC. | Rebecca Rogers | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Rebecca Rogers**

**Enw (priflythrennau): Rebecca Rogers**

**Swydd: Rheolwr** **Dyddiad: 13.5.26**